AMGUEDDFA CYMRU

# PARTÏON NADOLIG 2025



## Ar gael diwedd Tachwedd – Rhagfyr

amgueddfa.cymru

# EICH NADOLIG
# EICH STORI
# EICH AMGUEDDFA

## Beth am gael dathliad MAWR y Nadolig hwn?

Eleni, yng nghanol y brifddinas, gallwch chi fwynhau cinio gyda'r mamoth blewog ym Mhrif Neuadd eiconig Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd!

Mae'r lle yn eistedd hyd at 260 ar gyfer cinio ffurfiol. Beth am gynnig profiad bythgofiadwy i'ch gwesteion dan y Gromen.

Bydd dewis o fwydlenni, pob un yn dri chwrs tymhorol wedi'i paratoi gan ein harlwywyr gwobrwyog.

Gallwch chi hefyd gynnig derbyniad diodydd i'ch gwesteion mewn orielau llawn gweithiau celf gwych, gan gynnwys un o gasgliadau celf argraffiadol gorau Ewrop yn llawn campweithiau gan Renoir, Cezanne a Monet.

Mae ein tîm arbenigol wrth law i helpu gyda'r adloniant hefyd, ac yn gallu awgrymu popeth o fandiau a DJs lleol i gonsuriwyr.

Cysylltwch â ni nawr i fwynhau Nadolig yn yr Amgueddfa.

llogi@amgueddfacymru.ac.uk

**Pris Llogi Cyfleusterau Nadolig £3,800 +TAW**



# Arlwyo Nadolig

**Dewiswch y pecyn arlwyo gorau i chi.**

Gallwn ni gynnig bwydlenni gan ddau arlwywr gwobrwyog o Gymru, gan gynnwys canapés, stondinau bwyd, bwyd stryd neu ginio ffurfiol.

Sganiwch y codau QR ar y bwydlenni i weld cynigion y Nadolig.






# Diod

Bydd tîm yr Amgueddfa yn gallu darparu diodydd wrth gyrraedd a bar yn ystod y nos.

## Pecynnau Diod

### Pecyn 1 - £14.34 y pen

- 1 x Diod wrth Gyrraedd
- 1 x Gwydr o Win y Tŷ gyda'r bwyd

### Pecyn 2 - £29.94 y pen

- 1 x Diod wrth Gyrraedd
- 1 x Hanner Potel o Win y Tŷ gyda'r bwyd

### Pecyn 3 - £35.94 y pen

- 1 x Gwydr o Champagne
- 1 x Gwydr o Win y Tŷ gyda'r bwyd

Dewiswch o: Prosecco, Diod Ysgawen Pefriog, Cwrw a Chwrw Di-alcohol ar gyfer y Diod wrth Gyrraedd.

Trafodwch yr holl ddewisiadau diod gyda'r tîm.

### Bar

- Bar agored arian parod a cherdyn ar gael.
- Isafswm gwariant bar yn berthnasol, yn seiliedig ar nifer gwesteion.



## Telerau ac Amodau

Mae'r Amgueddfa ar gael rhwng 6:30pam a hanner nos. Mae opsiynau ar gyfer gorffen yn hwyrach ar gael ar gais, am dâl ychwanegol.

Bydd angen isafswm o 100 gwestai ar gyfer archeb. Mae opsiynau ar gael ar gyfer grwpiau llai.

Pris llogi cyfleusterau £3,800 + TAW. Bydd yr Arlwywyr Trydydd Parti yn anfonebu pris y pen ar wahân. Mae'r pris llogi cyfleusterau yn gyfradd unffurf.

## Cyswllt

Am ragor o wybodaeth, i drefnu ymweliad, ac i archebu e-bostiwch llogi@amgueddfacymru.ac.uk

Ewch i'n gwefan **amgueddfa.cymru/llogim**

## Cefnogwch ni

Elusen yw Amgueddfa Cymru, ac mae ein teulu o saith amgueddfa a chanolfan gasgliadau wedi'u gwasgaru ar draws Cymru. Mae popeth a brynwch, boed yn fawr neu yn fach, yn ein helpu i sicrhau bod Amgueddfa Cymru yn perthyn i bawb ac yma at ddefnydd pawb. Ein nod yw ysbrydoli pawb trwy stori Cymru – yn ein hamgueddfeydd, yn ein cymunedau ac yn ddigidol.

Rhif elusen gofrestredig 525774

amgueddfa.cymru

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**